pp Mawrth 21.qxp_Layout 1 08/03/2021 4:00 pm Page 1

Pris: 50c

Papur Pawb

Mawrth 2021 Rhif 467

Plant y Cyfnod Sylfaen yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi – tud 5

tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 6 Portreadau Arvid
tud 9 Cors Fochno
tud 12 Chwaraeon

Cyffro Cae Bach

Mae'r Cae Bach yn un o adnoddau amlycaf a phoblogaidd pentref Tal-y-bont. Mae cenedlaethau o blant a phobl ifanc yr ardal ag atgofion melys o ymgynnull i chwarae a mwynhau yno. Cafodd ei agor nôl ar yr 8fed o Fedi 1973 gan Y Barnwr Elystan Morgan, Aelod Seneddol Ceredigion ar y pryd.

Mae'r adnodd yn cael ei ddarparu a'i reoli gan Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr. Dros y misoedd diwethaf mae yna dipyn o drafod wedi bod am sut gellir edrych i ddatblygu a'i wella. Erbyn hyn mae pwyllgor gwaith adnewyddu y Cae Chwarae wedi ei sefydlu sydd â chynrychiolaeth o'r gymuned leol. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn er mwyn dylunio rhestr o syniadau ac adnabod ffynonellau ariannu.

Mae'r gweithgor yn gweld fod cyfleoedd i wireddu gwelliannau yn y byr dymor yn ogystal â rhai mwy traswnewidiol sylweddol hir dymor. Yn barod mae yna waith cynnal a chadw wedi ei wneud sydd wedi cael effaith a gwelliant gweledol amlwg iawn.

Gellir chwilio mwy o wybodaeth a chyfrannu syniadau drwy dudalen Facebook **Cae Chwarae Tal-y-bont**.

Mae'r gwaith wedi cael dechreuad gwych drwy rodd hynod o hael gan Nia a Wayne Edwards o Feithrinfa Greenacre o ddwy fainc bicnic a fydd yn ei lle yn fuan - diolch yn fawr iawn iddynt.

Da iawn a phob hwyl am y dyfodol – chi'n haeddu pob llwyddiant a chefnogaeth.

Cyn y gwaith

Ar ôl y gwaith

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:
Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:
Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:
Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:
Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Llangynfelyn:
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwysfach/Ffwrnais:
Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:
Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:
Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Ysgrifennydd:
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgrifiadau:
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:
Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:
Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Non a Gerwyn, gyda Ceri yn dylunio. Diolch iddynt.

Y golygyddion ar gyfer rhifyn Ebrill fydd Delyth a Bleddyn (huws.henllan@btinternet.com)

Y dyddiad cau yw 2 Ebrill a bydd y papur ar werth ar 9 Ebrill.

Pobl a Phethe

Genedigaeth
Croeso i Woody, mab Jen a John Evans, Hen Ysgol yr Eglwys, Bont-goch, a anwyd ar 2 Mawrth 2021 - brawd bach i Minnie a Bess. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Dathlu pen-blwydd arbennig
Llongyfarchiadau i Margaret Jones, Penlonlas, Tal-y-bont ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Symud tŷ
Croeso i Ifor a Jane Morgan sydd wedi dod i fyw i Cartref, Birkenhead Street, Tal-y-bont a llongyfarchiadau iddynt ar enedigaeth wyres fach sef Olive Rosalie, merch fach i Alun a Lisa.

Genedigaeth wyres
Llongyfarchiadau i Heulwen Richards, Clap y Cripiau am ddod yn Fam-gu i Elain Grug, merch fach i Rhys a Ffion Richards.

Cydymdeimlo
Tristwch o'r mwyaf yw cofnodi marwolaeth Betty Roberts, Maesyderi. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf at y teulu.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Ioan Beechey a Ffion Jones, Llety Llwyd ar enedigaeth mab, Madog Owen. Bydd Hedydd yn chwaer fawr arbennig iddo. Croeso i'r aelwyd a dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Croeso
Croeso cynnes i Bev Rose a'i theulu sydd wedi symud i fyw i Bryn Derw, Taliesin. Roedd Bev yn arfer byw yn y pentref ac yn falch iawn o fod yn ôl ac rydyn ninnau'n falch iawn o'i gweld hi a'r plant yma eto!

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Ann Humphreys, Llysteg, Taliesin ar enedigaeth gor-ŵyr arall iddi, Tomos Wyn, mab i David a Kelly a brawd bach i Siôn Wyn.

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Zeb, Min-y-môr, Taliesin, sy'n dod dros ddamwain gas ar ei feic modur yn ddiweddar. Cofia mai gorffwys yw'r ffisig gorau Zeb a phwyll biau hi o hyn allan!

Cydymdeimlo
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Jackie Roberts, Tre'r Ddôl yn ddiweddar. Roedd hi'n wirfoddolwraig a chefnogydd selog i Cletwr ers blynyddoedd. Colled mawr i'r gymuned. Cydymdeimlwn â John a'r teulu oll.

Goleuo Bont-goch

Diolch i Helen Sharma, Tanllidiart, Bont-goch am drefnu digwyddiad hyfryd *Goleuo Ffenestri Bont-goch* ar ddiwedd Chwefror i godi ein calonnau. Cafwyd ymateb da oddi wrth y trigolion a gwaith celf i'w ryfeddu. Bwriedir trefnu digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

A welsoch chi hen ffon fy Nain?

Do, maen nhw, neu roedden nhw ar ddechrau'r mis yn crogi ar y giât i fynedfa'r lôn mewn i Allt-y-crib! Mwy nag un Nain hefyd oherwydd mae dwy ffon. Mae'r ddwy Nain wedi colli eu hymbarelau hefyd. Felly os welwch chi rywun yn cerdded yn gloff cyfeiriwch nhw at y fynedfa swyddogol i Allt-y-crib yn enwedig os yw hi'n 'bwrw glaw yn sobor iawn'.

pp Mawrth 21.qxp_Layout 1 08/03/2021 4:00 pm Page 3

Pobl a Phethe



Cyrraedd y 100

Llongyfarchiadau i William Jenkins, Ynyseidiol, Ffwrnais (gynt o Benrhyngerwyn, Tre'r Ddol) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed yn ddiweddar. Er na fu parti pen-blwydd, cafwyd parti teuluol dros Zoom gyda phedair cenhedlaeth yn bresennol. Hoffai Will ddiolch i bawb am y cardiau a chyfarchion a dderbyniodd ar yr achlysur.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Rob ac Enid Evans, Trem-y-rhos, Bont-goch ar ddathlu eu priodas aur. Priodwyd nhw yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth ar 6 Mawrth 1971.

Ble mae hwn ger pentref Tal-y-bont?

Eglurhad yn rhifyn Papur Pawb mis Ebrill

Ceredigion

Yn ystod cyfnod y pandemig mae'n debyg ein bod wedi cael cyfle i adlewyrchu ar beth sy'n wir bwysig a chyfri' mewn bywyd. Peth arall mae'r pandemig wedi gwneud yw cadw ni'n agosach i adref a debyg iawn un canlyniad o hyn fydd fod llawer ohonom wedi ein hatgoffa o pha mor lwcus iawn rydym ni i fyw mewn lle mor hollol unigryw ac arbennig!

Y meddylfryd yma sy'n tanategu Caru Ceredigion lle ein bod ni gyd yn gweld, cydnabod a dathlu'r cadarnhaol o fyw yng Ngheredigion gan feddwl am ffyrdd y gallwn ni gyd i gyfrannu o fewn ein cymunedau. Mae esiamplau o hyn yn cynnwys:

- **P = Parcio Positif:** parcio'r car yn ofalgar a chyfreithlon.
- **Cadw Ceredigion yn Lân:** defnyddio biniau sbwriel.
- **Eich Ci Eich Cyfrifoldeb:** casglu a bagio baw ein cŵn.
- **Gwastraff Iawn • Diwrnod Iawn • Ffordd Iawn**: lleihau gwastraff gan ailgylchu gymaint â phosib drwy gyflwyno'r gwastraff iawn ar y diwrnod iawn yn y ffordd iawn.
- **Caru Eich Cymuned:** cefnogi ac ymgymryd mewn gweithgareddau yn y gymdeithas leol.

Gwneud y pethau bychain sy'n gallu gael dylanwad mawr!

Mae angen i bawb gofio bod yn well fod yn garwr na chollwr a bod gyda phawb ei rhan i'w chwarae yn cadw Ceredigion yn lle fendigedig i fyw. Gyda'r bwriad o atgoffa bobl o hyn mae logo Caru Ceredigion i'w weld yn amlwg iawn yn ein cymunedau a chartrefi, o finiau sbwriel i arosfannau bws i sachau a blychau ailgylchu. Bob tro gwelwch y logo codwch wên a chofiwch gwneud neu dweud rhywbeth cadarnhaol gan helpu ledaenu'r cariad!

Lle Del

Er mwyn darganfod eich lle delfrydol….

1. Dewiswch rif rhwng 1-9
2. Lluoswch efo 3
3. Ychwanegwch 3
4. Lluoswch eto efo 3
5. Ychwanegwch y ddau digid gyda'i gilydd i ddarganfod y rhif sy'n dynodi eich lle delfrydol o'r rhestr ganlynol:

1. Monaco	**6. Paris**	**11. Y Borth**	**16. Moscow**
2. Rio de Janeiro	**7. Rhufain**	**12. Sydney**	**17. Cape Town**
3. Cannes	**8. Toronto**	**13. Penrhyncoch**	**18. Wellington**
4. Bow Street	**9. Ardal Papur Pawb**	**14. Amsterdam**	**19. Lima**
5. Efrog Newydd	**10. Barcelona**	**15. Tokyo**	**20. Ponterwyd**

Mae'r dechneg uchod yn wyddonol a mathamategol hollol gywir!

Dathlu Dewi a Diwrnod y Llyfr

Er na welsom ddathliadau traddodiadol Dydd Gŵyl Dewi eleni, ni aeth y diwrnod heibio heb ei nodi.

Dathlu Dewi yn Cletwr

Plant Cylch Meithrin Tal-y-bont yn dymuno Dydd Gŵyl Dewi Hapus i chi!

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Gwelwyd cymeriadau di-ri yn troedio trwy ddrws Cylch Meithrin Tal-y-bont ar y 4ydd o Fawrth i ddathlu Diwrnod y Llyfr.

Ysgol Tal-y-bont



Dydd Gŵyl Dewi

Diwrnod y Llyfr

Bathodyn Blue Peter

Poster

Blodau

Ysgol Tal-y-bont

Dychwelyd i'r ysgol
Mae hi wedi bod mor braf i ddechrau croesawu plant yn ôl i'r ysgol yn ystod y mis diwethaf. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion, mae plant y Cyfnod Sylfaen bellach yn ôl yn eu dosbarthiadau ac yn brysur wrth eu gwaith. Ac er ein bod yn gorfod parhau gyda'r holl fesuriadau hylendid trylwyr oedd ar waith cyn y Nadolig o ran cadw grwpiau cyswllt, cymryd tymheredd, creu llwybrau unffordd a glanhau ychwanegol mae'r plant a'r staff wedi llwyddo i greu awyrgylch hyfryd yma.

Cyn diwedd mis Mawrth rydym yn gobeithio'n fawr y bydd plant Cyfnod Allweddol 2 yn gallu dychwelyd atom fel ein bod unwaith eto'n gallu teimlo fel ysgol gyfan. Yn y cyfamser, mae'r plant yma'n parhau i gael eu dysgu o bell ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eu hymdrechion i gyflawni'r gwaith ac i'r teuluoedd am ein cefnogi gyda'r dysgu. Mae hi wedi bod yn braf i weld wynebau'r plant mewn sesiynau ffrydio byw a gweld y gwaith amrywiol sy'n cael ei gyflwyno ar SeeSaw.

Enghraifft dda o'r amrywiaeth yma yw bod Cian a Steffan wedi bod yn dysgu ieithoedd gwahanol dros y cyfnod clo ac am roi cwis bach i chi y mis yma. Beth am i chi fentro!

Dyma gwis Steffan. Cyfieithwch y geiriau hyn. Cliw i chi – Almaeneg ydy'r iaith!
Ein – Zwei – Drei – Wasser – Mann – Frau – Käse – Salz –

Atebion – un, dau, tri, dŵr, dyn, dynes, caws, halen.

Mae Cian wedi bod yn dysgu Ffrangeg. Dyma bwt o sgwrs wnaeth e recordio i ni. Tybed a fedrwch chi ei ddeall?
Bonjour. Je m'appelle Cian. Je suis Galloise. J'habite à Pays de Galles. J'aime faire du vélo. Au revoir.

Dydd Gŵyl Dewi
Roedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn wahanol iawn eleni wrth gwrs, ond roedd digon o fwrlwm yn y dosbarthiadau ac ar-lein hefyd. Dyma rai lluniau i ddangos y gwahanol weithgareddau. Diolch yn fawr i'r staff am drefnu ac i Ruth Jên am yr ysbrydoliaeth.

Diwrnod y Llyfr
Yn yr un modd roedd dathlu Diwrnod y Llyfr yn wahanol iawn eleni, ond diolch i bawb am gyfrannu mewn gwahanol ffyrdd i hybu darllen llyfrau. Hoffwn i ddiolch o galon i'r awdures Manon Steffan Ros am ddanfon fideo ohoni'n darllen ei stori Y Dyn Gwyrdd a'r Coed Teg i ni ac i Mrs Griffiths am drefnu.

Bathodyn Blue Peter
Roedd hi'n hyfryd i glywed am lwyddiant Alys yn ennill bathodyn Blue Peter yn ddiweddar. Os edrychwch yn ofalus, lliw gwyrdd sydd i'r bathodyn, a hynny am fod Alys a'i theulu wedi bod yn brysur yn codi sbwriel ac yn gofalu am yr amgylchedd yn eu hardal leol. Da iawn ti Alys, rwyt ti wedi gosod esiampl gwych i ni gyd.

Blodau
Er ein bod ni, fel oedolion, yn cwyno nad yw'r plant wedi bod yma ers sbel, mae rhai pethau byw wedi mwynhau'r cyfnod tawel ar iard yr ysgol!

Poster
Mae Alys wedi bod yn brysur iawn dros y mis diwethaf. Dyma boster lliwgar a thrawiadol ganddi sy'n ein hatgoffa i ddal ati ac i beidio â rhoi'r ffidil yn y to.

Trafnidiaeth
Mae hi'n gymaint o ryddhad gallu cyhoeddi bod y goleuadau 20mya bellach yn gweithio. Mae llawer o drafodaethau wedi digwydd rhwng yr ysgol a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn, ac yn dechrau fflachio ar yr amseroedd sy'n addas ar gyfer yr ysgol a'r Cylch Meithrin. Rydym yn croesi bysedd y bydd hyn yn arwain at arafu'r trafnidiaeth cyn amser ysgol ac wrth gasglu'r plant ar ddiwedd y dydd. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd gwelliannau eraill yn digwydd yn ôl yr addewid dros y blynyddoedd nesaf.

Dim stop ar y cerdded!

Mae Annette Smith,13 Dôl Pistyll wedi codi £710 hyd yn hyn ar ôl cerdded dros 100 milltir mewn 21 diwrnod, o amgylch ei hardal leol i godi arian ar gyfer Uned Dydd Cemotherapi Bronglais. Mae Annette fel arfer yn cerdded ar y mwyaf o 60 milltir y mis, felly roedd y ddynes 63 oed wedi gwthio ei therfynau mewn gwirionedd. Dechreuodd ar 10fed Chwefror a gorffen milltir 100 ddydd Mawrth yr 2il o Fawrth, ddeg diwrnod cyn ei phen-blwydd yn 64 oed, pan fydd hi'n dathlu ei chyflawniad gyda chacen haeddiannol!

Meddai "Rwyf am roi rhywbeth yn ôl i'n gwasanaethau lleol yn y GIG. Rwy'n teimlo'n hynod lwcus nad yw Coronafeirws wedi effeithio gormod ar fy nheulu a minnau ac rwyf am wneud fy rhan i helpu. Rwy'n teimlo bod angen i mi wneud rhywbeth i ddweud diolch.

Rwyf hefyd am osod her i mi fy hun a gwthio ffiniau. Rhywbeth i mi deimlo'n falch ohono".

Dywedodd Annette fod yr her yn brawf corfforol a meddyliol, ond ychwanegodd ei bod yn hyfryd archwilio ei hardal leol a mwynhau'r amgylchoedd.

Ychwanegodd, "Rwy'n teimlo'n falch iawn bod fy her bersonol wedi codi swm mor dda i gyfrannu at waith gwych yr Uned Dydd Cemotherapi yn Ysbyty Bronglais. Bydd eu gwaith yn parhau y tu hwnt i'r argyfwng presennol hwn. Diolch o galon i'm holl gefnogwyr a byddai gwych meddwl y gallai fy ymdrechion godi mwy fyth!"

Mae yna amser o hyd i gefnogi ymdrechion anhygoel Annette drwy ymweld â'r dudalen ganlynol:
http://www.justgiving.com/anothersmithy

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Glanyrafon
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael
01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Portreadau Arvid

Fe fu Arvid Parry-Jones a'i deulu yn gefnogol iawn i *Papur Pawb* dros y blynyddoedd. Mae ei ffotograffau gwych wedi britho'r papur dros gyfnod maith. Dyma ni felly'n dechrau cyfres yn seiliedig ar y portreadau a dynnwyd gan Arvid tua deugain mlynedd yn ôl. Roedd y rhain yn cyd-fynd ag ysgrifau difyr a luniwyd gan awduron profiadol, fel y diweddar J R Jones a Hefin Llwyd, ac fe fyddwn yn cynnwys darnau o'r ysgrifau hyn yn y gyfres.

Mae'r ffotograff cyntaf yn y gyfres yn un arbennig o drawiadol. Ymddangosodd, ynghyd ag ysgrif gan J R Jones, yn rhifyn Rhagfyr 1983. Y gwrthrych yw Mrs Ann Jane Griffiths, Fron-deg, Taliesin (Cefnerglodd gynt) a oedd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed.

Yn ôl yr ysgrif "…fe'i magwyd yn Llawrcwm-mawr,yng nghesail Craig y Pistyll,y pumed o ddeg plentyn i Edward ac Ann Hughes. Er ei bod yn gyfnod tlawd cafodd pob un ohonynt fagwraeth dda, a mawr ei diolch i'w rhieni; ac os prin yr arian 'roedd digon o fwyd maethlon yn y cartre i ddigoni pawb, a chroeso i bob ymwelydd a ddoi heibio. Yr unig addysg ffurfiol a gafodd oedd yn Ysgol Bontgoch, gan wynebu tair milltir o gerdded yno bob dydd gyda'i thocyn, a'i diod mewn potel dun.

'Roedd yn siwrnai hefyd ar y Sul i Gwmerfyn, dringo i fyny y llechwedd ac ymlaen heibio Pen Dam, ond aent yno yn gyson fel teulu, ac onid un o ddyddiau mawr y flwyddyn oedd trip yr Ysgol Sul yn y brec i'r Borth?

Byddai digon o ymwelwyr yn galw ar eu tro, llawer o fugeiliaid, a nhw a fyddai'n cludo newyddion o bob math i'w trin a'u trafod a'r plant yn glustiau i gyd, a cheid oriau o ddifyrrwch ychwanegol pan alwai cymeriadau fel John Ffosfudur, Dafydd Lluest-fach neu John Henhafod, a dyna medde hi sy' wedi mynd ar goll heddiw, sef yr hwyl a'r hiwmor a nodweddai pobol y mynydd erstalwm.

Ni wyddai neb am drydan, cannwyll a fyddai'n goleuo'r gegin a byddai'i mam yn gwneud canhwyllau brwyn i arbed y lleill, ac ar nosau hir y gaeaf byddai'n gwau a gwnïo, gan wneud ei dillad i gyd ei hunan. John Morris y crydd a wnai esgidiau-bob-dydd i'r teulu, a phrynu esgidiau ddydd Sul yn Nhal-y-bont, gyda Lewis Morgan neu yn yr Emporiwm.

Wedi priodi daeth i fyw i Gefnerglodd ac mae'r olygfa oddiyno dros y bae gyda'r gorau y gellid meddwl amdano."

Cymeriadau Cymuned

Cymeriadau sy'n gwneud cymuned. Does dim templed, model na phroffeil…ei bod nhw'n unigryw sy'n ei gwneud nhw'n gymeriadau! Un felly oedd Ralph Davies - *The Prince of Prize Fighters and Opera Singers* fel oedd yn cael ei adnabod gan rai!

Un o fois Tre'r Ddol oedd Ralph a fu ei filltir sgwâr yn bwysig iawn iddo trwy gydol ei fywyd. Er hyn roedd yn wybodus gyda diddordeb mewn sawl wahanol faes gan gynnwys opera, bocsio a daearyddiaeth a olyga fod ei orwelion yn ymestyn llawer pellach na ffin y plwy'. Mae'r isod yn ddetholiad bach o hanesion sydd gobeithio yn rhoi rhyw flas ac atgof o'r cymeriad lliwgar a hoffus iawn yma.

Roedd Ralph yn gyfarwydd iawn â gwaith cantorion opera enwog megis Gigli, Lanza, Björling, Carreras, Domingo, Gobbi, Pavarotti a'i ffefryn David Lloyd. Ond byddai'n aml gyfeirio at ddau gantor Cymraeg llai adnabyddus, sef Torripoteli a Cravaninni!

Bu cnoc ar y drws yn hwyr un prynhawn Sadwrn pan oedd Ralph yn paratoi i fynd am beint. Atebodd y drws i gael ei gyfarch gan bâr ifanc yn dal Beibl gan ddatgan "*Rydym wedi dod i rannu'r newyddion da gyda chi*"! Ymatebodd Ralph yn ddiymdroi, "*Dwi wedi clywed yn barod ar y radio…mae Wolves wedi ennill i ffwrdd*"!

Bu Ralph yn ailenwi nentydd ac afonydd yr ardal i gyd-fynd â rhai o'r rhai mwyaf a mwyaf adnabyddus yn y byd! Yr Orinoco oedd y Clettwr, Y Nîl oedd y Leri ac yn briodol iawn y Rio Negro oedd Nant Ddu! Roedd pob un yn llifo mewn i'r Amason (Dyfi)! Ond yn ôl Ralph roedd yna well pysgod yn y Clettwr nag unrhyw un o'r lleill.

Un stori roedd Ralph yn hoff iawn o'i rannu oedd honno am fod y dŵr ym Moel Llyn yn mynd fyny ac i lawr gyda'r trai! Os oedd hyn yn wir, roedd o'r farn fyddai rhaid bod yna globen o bwmp mawr rhywle yng nghyffiniau Bont y Lein ac ar ôl treulio oes yn chwilio - welodd e byth mohoni!

Ar ôl wythnos galed o waith fyddai Ralph wastad yn sgleinio ar nos Sadwrn yn y Llew Gwyn a'r 'Fowler o ran ei olwg ond hefyd ei gwmni. Ei ddawn direidus oedd adrodd storïau gyda chymaint o angerdd, pendantrwydd, lliw a bywyd roedd yn anodd iawn peidio â chredu ei bod nhw gyd yn wir!

Bu farw Ralph ym Mehefin 2014 ac yntau yn 80 oed. Mae'n braf medru cofio nôl am yr hwyl a sbri oedd i'w gael yng nghwmni y cymeriad yma.

Gerwyn Jones



Diweddariad prosiect o'r Mynydd i'r Môr – Mawrth 2021

Mae wedi bod yn gyfnod reit galed i bawb dros y gaeaf, yn enwedig o'r flwyddyn newydd ymlaen. Gobeithio fod pawb yn yr ardal yn cadw'n iach a diogel. Rydym wedi parhau efo'r gwaith o cyd-ddylunio prosiect O'r Mynydd i'r Môr, a dyma i chi flas o beth sydd wedi digwydd, beth yw'r prif themâu sydd yn dod i'r amlwg a'r cyfleoedd i chi gymryd rhan.

Nôl yn mis Tachwedd cynhaliwyd cyfarfod cyntaf grŵp cyswllt y prosiect. Daeth dros 23 o bobl i'r cyfarfod, gan gynnwys trigolion lleol, busnesau, undebau amaeth, cynghorwyr lleol a phrosiectau lleol. Roedd y trafodaethau ar gyfeiriad y prosiect a'r strwythur yn hynod o ddefnyddiol.

Rydym eisoes wedi cynnal tri gweithdy i drafod beth all wneud yr ardal yma o Gymru yn well byth i natur a phobl. Clywsom am y prosiectau a gwaith gwych sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal, cyn trafod syniadau am beth allwn wneud i daclo'r gostyngiad mawr ym mioamrywiaeth ar draws Cymru. Mae dros 70 o bobl wedi cymryd rhan yn y trafodaethau yma, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma. Hoffwn hefyd ddiolch i'r hwyluswyr gwirfoddol a wnaeth wneud hi'n bosib i ni groesawu mwy o bobl i'r sesiynau a chymryd nodiadau. Mae'r nodiadau yma ar gael ar ein gwefan.

O ganlyniad i'r gweithdai, ein trafodaethau gyda grwpiau ac unigolion, a'r ymateb i'r holiadur (sydd dal ar gael i chi gwblhau) mae pedwar prif thema wedi dod i'r amlwg:

- Cryfhau systemau cynhyrchu lleol sy'n cynnal a chefnogi natur
- Galluogi gwell cysylltedd rhwng cynefinoedd llawn bywyd gwyllt
- Ail gysylltu pobl a natur
- Ail gysylltu'r economi a natur

Ar gyfer ein camau nesaf, rydym am gymeradwyo'r themâu yma ymhellach, cyn cychwyn meddwl am syniadau ar gyfer ymyriadau a fydd yn gallu cyflawni'r themâu yma.

Rydym hefyd am wahodd pobl i fod yn 'hwyluswyr cymunedol', a chefnogi unigolion i gynnal sgyrsiau gyda'u grwpiau lleol, ffrindiau, cyd-weithwyr ac yn y blaen. Bydd y sgyrsiau yma yn cael eu mewnbynnu i'r broses o ddatblygu syniadau. Mae yna mwy o wybodaeth ar ein gwefan neu gallwn ni yrru gwybodaeth yn y post.

Yn olaf, efallai bod rhai ohonoch chi wedi gweld ein bod ni wedi cyhoeddi fideo yn egluro'r prosiect ar ein gwefan, tudalen Facebook ac Instagram. Heulwen a'i thîm yn Llais Cymru sydd wedi creu'r fideo yma, ac rydym yn gyffrous iawn i allu ei rannu. Edrychwn ymlaen at drafod eich syniadau, gan obeithio bydd yn bosib i ni gwrdd wyneb yn wyneb!

www.ormynyddirmor.cymru
www.facebook.com/ormynyddirmorsummittosea
www.instagram.com/or_mynydd_ir_mor
Siân Stacey

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ
www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

Michael Rowlands
Adeiladwr
01970 832 732 • 07929 003 576

Colofn Elin

Wrth i mi ysgrifennu'r golofn yma mae chwarter o bobol ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi derbyn y brechlyn yn erbyn y coronafeirws. Mae'r ymdrech i frechu wedi bod yn arwrol a'n diolch i bawb sydd wedi bod wrthi yn trefnu ac yn chwistrellu yn enfawr. Diolch i'n NHS. Bydd yr wythnosau nesaf yma eto yn brysur iawn er mwyn cwblhau y naw grŵp blaenoriaeth. Er fod hyn yn newyddion da, mae'r feirws dal yn fygythiad a mae angen i ni gyd fod yn ofalus iawn yn ein bywydau bob dydd.

Mae dwy ymgyrch wedi hawlio fy holl sylw yn ddiweddar. Y cyntaf oedd i sicrhau mwy o gyllid i'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn gwarchod swyddi. Bu hynny'n llwyddiannus a daeth mwy o gyllid o Lywodraeth Cymru. Yr ail ymgyrch yw i weld cynnydd yn y cyllid i'r Cyngor Sir yma yng Ngheredigion er mwyn atal torri swyddi a chadw treth y cyngor mor isel â phosib.

Ddechrau mis Mawrth mi fydd Plaid Cymru yn galw pleidlais ar lawr y Senedd er mwyn trechu y ddedfwriaeth NVZ newydd sydd wedi cythruddo ffermwyr Ceredigion a phob man. Mae bwriad Llywodraeth Cymru i leihau llygredd afon yn rhy llym ar ein patrwm ffarmo. Mae angen targedu ymyrraeth fel hyn, nid gosod pob ffermwr o dan yr un ddeddfwriaeth. Hefyd yn yr wythnosau nesaf mi fydd pleidlais arall fawr ar lawr y Senedd i wneud Hanes Cymru yn bwnc gorfodol yn y cwricwlwm newydd. Mae yna ddeiseb niferus wedi ei chasglu i weithredu ar hyn, ond hyd yn hyn mae'r Llywodraeth wedi gwrthod. Cawn weld beth ddigwyddith pan ddaw'r bleidlais.

Yn olaf, er fod ein defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus wedi cwympo yn ystod covid, mae'n braf i groesawu agor gorsaf drên newydd sbon Bow Street. Mi fydd hon yn orsaf ddefnyddiol i'r gymuned leol ac i'r Brifysgol yn IBERS Gogerddan. Prysured y dydd y bydd mwy ohonom yn dychwelyd i drenau a bysus. Tan hynny, cadwch yn saff.

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Alun Davies
Contractiwr Trydanol
T 01970 832142 M 07703 169813
Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

STORFA HUNAN FYNEDIAD
UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH
24 AWR
Storfa Cartref & Busnes
Bocses a Bubblewrap
Symud gyda Wales REMOVALS
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
MID WALES STORAGE
www.midwalesstorage.co.uk

Rhamant ym Mhapur Pawb?

Does byth llawer o ramant ym Mhapur Pawb ond dyma stori wir.

Mae pâr ifanc, Barbara ac Enrique wedi dod i fyw ym Mhentrebach am gyfnod byr iawn. Roedd Barbara sydd o'r Weriniaeth Czech yn gweithio fel nyrs mewn ysbyty yn Llundain. Yn 2015 pan welodd hi yr holl ffoaduriaid ar y teledu yn croesi Môr y Canoldir o Libya tua Ewrop, llawer yn boddi ar eu taith ac eraill yn cyrraedd y tir mawr ar ôl fordaith ofnadwy mewn cyflwr difrifol gwnaeth Barbara benderfyniad. Gan ei bod yn nyrs teimlodd y gallai fod o gymorth, felly rhoddodd y gorau i'w gwaith yn Llundain ac ymuno gyda Medecin sans Frontiere. Cafodd ei hunan am oes ar long y mudiad yn cludo'r ffoaduriaid yn ddiogel i dir mawr Ewrop tan un diwrnod cafodd ei llong hi broblem a bu rhaid i rywun ddod i achub yr achubwyr.



Enrique a Barbara ond nid yn Nhal-y-bont!

Llong o Sbaen ddaeth i roddi cymorth a'r capten oedd Enrique o Majorca. Achubodd ef y ffoaduriaid ac ar yr un pryd cipiodd Enrique galon Barbara. Maent gyda'i gilydd hyd heddiw, Barbara yn fydwraig yn ysbyty Bronglais ac Enrique yn chwilio am waith yn lleol.

Rhys Huws

BroAber360

Helo bawb, gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn. Mae wedi bod yn fis bach tawelwch i BroAber360 ar ôl prysurdeb Ionawr, ond mae pethau wrthi'n prysuro eto ym mis Mawrth! Derbyniwyd hefyd nifer dda o straeon diddorol, gan gynnwys un gan Betsan Siencyn am Dreialon Meithrin Cŵn Defaid Ceredigion. Mae sawl digwyddiad digidol ymlaen efo Bro360 yn ystod mis Mawrth, gan gynnwys sesiynau BroAber360 a sesiwn ar sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Gallwch weld y stori, manylion am y sesiynau a llawer mwy ar www.broaber360.cymru - a gallwch gysylltu â mi ar danieljohnson@golwg.com .

Dan Johnson

Codi Arian tuag at Ymchwil Cancr

Mae Siôn Pennant a'i fab Oisín, Penygro, Bont-goch, yn bwriadu beicio 500 km yn ystod yr wythnosau nesaf i geisio codi £1,000 tuag at Ymchwil Cancr, er cof am ei fam, y diweddar Mrs Mair Penri Jones o'r Parc, ger Y Bala. Os ydych am eu noddi gellir gwneud hynny ar y ddolen ganlynol: https://fundraise.cancerresearchuk.org/page/seiclo-300-sion-pennant

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Chwefror 2021

Cynhaliwyd cyfarfod misol mis Chwefror ar Zoom ar Nos Lun, 22 Chwefror 2021, gyda deg o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Mr Rab Jones, a Mr Michael Fothergill. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng Nia Richards, croeso cynnes i bawb, ac yn enwedig i Mr Fothergill.

Problemau gyda Llygredd Carthffosiaeth yn Nhal-y-bont

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Michael Fothergill ar y sefyllfa diweddar gyda nifer o'r tai ar waelod y pentref yn Nhal-y-bont yn cael problemau gyda llygredd carthffosiaeth. Yn dilyn y cyflwyniad cytunwyd cysylltu gyda swyddogion Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am gyfarfod i drafod ymateb hir dymor i ddatrys y problemau yma.

Cae Bach Tal-y-bont

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cadeirydd, Cyng Nia Richards, ar gyfarfod cyntaf yr Is-Bwyllgor Prosiect Cae Bach. Cytunwyd gosod swm ariannol wrth law ar gyfer eitemau sydd angen sylw yn syth.

Sefyllfa Coronafeirws

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cynghorydd Sir, Cyng Ellen ap Gwynn, ar y sefyllfa diweddaraf gyda choronafeirws o fewn y Sir. Cadarnhawyd fod pethau yn symud ymlaen yn dda gyda'r broses o gynnig brechiad i bawb dros 60 oed.

Llythyr "Nextdoor Ceulanamaesmawr"

Mynegwyd pryder am lythyr "Nextdoor Ceulanamaesmawr" sydd wedi cael ei dderbyn gan nifer o drigolion yr ardal. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd pwysleisio nad oedd y llythyr yma yn unrhyw beth i wneud gyda'r Cyngor Cymuned.

Materion Ffyrdd a Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gyda nifer o eitemau sydd angen sylw ar y ffyrdd yn y gymuned a nifer o faterion eraill yn cynnwys diweddariad am faterion yn y fynwent, pryderon am goeden peryglus a phroblemau gyda baw cŵn.

Cynllunio

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Cynllunio ar Zoom ar Nos Fawrth, 2 Mawrth 2021. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi ceisiadau cynllunio ar dir ger Tyn-y-Cae, Tal-y-bont, ac yn Yr Efail Fach, Llandre.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002 / 07904 716 180

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Gwaith adfer ar Gors Fochno yn dangos canlyniadau calonogol

Mae gwaith adfer hanfodol gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn mynd yn ei flaen ar Gors Fochno, sydd yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Dyfi, dros yr hydref a gaeaf, ac mae'r canlyniadau yn ymddangos yn gadarnhaol hyd yn hyn.

Yn y DU mae 94% o gyforgorsydd tir isel wedi eu colli, nod Prosiect Adfywio Cyforgorsydd Cymru LIFE yw diogelu'r cynefin prin yma trwy wella statws saith o'r esiamplau gorau yng Nghymru, ac mae Cors Fochno yn un o'r rhain.

Mae'r safle yn bwysig yn genedlaethol ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Safle amgylcheddol sensitif yw Cors Fochno sydd wedi'u diogelu gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd oherwydd eu budd amgylcheddol.

Gwaith byndio ar Cors Fochno - Llun: NRW Umbraco

Gwaith adfer yn defnyddio dull unigryw

Dechreuodd y gwaith ym mis Medi 2020, nod y dull weddol newydd yma yw arafu'r broses o golli dŵr yn haen uchaf cromen y gyforgors, gan ddal lefel naturiol y dŵr ar y gors am amser hirach.

Crëwyd dros 12,875 metr (8 milltir) o fyndiau mawn ar Cors Fochno hyd yn hyn ac mae'r gwaith dal yn mynd yn ei flaen.

Mae'r byndiau, neu'r cloddiau mawn isel fel y'u gelwir hefyd, tua 25cm o uchder ac yn dilyn cyfuchliniau naturiol cromen y gyforgors.

Ychydig fisoedd ar ôl dechrau'r gwaith, ceir arwyddion calonogol bod lefel dŵr mwy naturiol yn dechrau ffurfio.

Dywedodd Patrick Green, Rheolwr Prosiect LIFE Cyfoeth Naturiol Cymru: "Rydym wrth ein bodd gyda'r effaith y mae'r byndiau wedi'u cael ar y safle mewn cyfnod mor fyr."

"Gwyddom fod y safleoedd hyn wedi dioddef oherwydd gwaith draenio a thorri mawn yn y gorffennol, sydd wedi effeithio ar y lefel trwythiad fel ei bod yn is na'r hyn y dylai fod mewn cyforgors iach – yn enwedig yn yr haf."

Bydd adfer lefelau dŵr naturiol ar y gyforgors yn sicrhau eu bod yn aros yn wlypach am amser hirach, gan helpu i greu ardaloedd lle gall migwyn pwysig sefydlu a ffynnu.

Migwyn yw peiriannydd cynefin y gyforgors, a'i allu i dal dŵr a gwrthsefyll pydredd, sydd yn creu pridd mawn brown tywyll.

Mae amrywiaeth o fathau o figwyn yn arwydd o gors iach, ac mae'r mawn y mae'n ei greu yn amsugno ac yn storio tunelli o garbon o'r atmosffer yn naturiol, gan helpu yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Bydd canlyniadau gwyddonol ffurfiol gan gynnwys data hydrolegol am y gwaith yma ar gael diwedd y flwyddyn.

ylolfa
Talybont, Ceredigion SY24 5HE
Yn sgil ehangu, rydym yn chwilio am
Reolwr Warws
i gadw trefn ar ein stoc lyfrau. Dyddiad cau 22 Mawrth.
Manylion llawn gan Garmon Gruffudd
ar garmon@ylolfa.com neu ffoniwch 01970 832 304.
Y Lolfa Cyf., argraffwyr a chyhoeddwyr
www.ylolfa.com

Torri a thrin coed sydd yn sychu'r gyforgors

Ar yr un pryd mae'r prosiect wedi bod yn cael gwared ar brysgwydd (coed bach) wedi'u gwasgaru ar draws y gyforgors. Mae prysgwydd goresgynnol wedi ennill tir ar Gors Fochno wrth i'r safle fynd yn sychach.

Mae'r gwaith o drin prysgwydd gwasgaredig wedi bod yn mynd rhagddo ar draws ardal o 354 hectar (875 erw) ar Gors Fochno dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phrysgwydd trwchus wedi'u tynnu dros 5 hectar (12 erw) eleni.

Bydd y gwaith yn parhau ar rannau newydd o'r safle, a bydd gwaith i ail-drin prysgwydd a rhododendron a gafodd eu trin yn y gorffennol hefyd yn cael ei wneud.

Gwaith chwistrellu cyff neu fonyn coeden - Llun: Drew Buckley Photography

Oeddech chi'n gwybod gall coed amsugno hyd at 100 galwyn o ddŵr y dydd? Mae hynny'n cyfateb i ychydig dros ddau faddon! Mae hyn yn sychu'r gors ac yn atal migwyn pwysig rhag tyfu.

Mae'r dull o drin y coed bach yn cynnwys torri boncyffion ac wedyn chwistrellu chwynladdwr cymeradwy i mewn i'r cyff.

Mae chwistrellu'r cyff yn golygu drilio twll yng nghyff neu fonyn coeden sydd wedi'i thargedu a chwistrellu neu osod capsiwl â chwynladdwr yn y cyff neu'r bonyn. Mae hyn yn rhyddhau'r chwynladdwr yn araf iawn, a thros nifer o flynyddoedd mae'r cyff neu'r bonyn yn edwino ac yn pydru.

Bydd tynnu a thrin coed sy'n tyfu ar y corsydd ac yn agos atynt yn helpu i annog mwsoglau pwysig y corsydd hyn i dyfu, gan helpu i gadw'r corsydd yn wlyb ac yn sbyngaidd a'u hadfer i'w cyflwr naturiol.

Pan fydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu bydd y prosiect yn gwahodd cymdogion a phartïon eraill â diddordeb i ymweld â'r safle gwych yma i weld a thrafod y gwaith sydd wedi bod yn digwydd.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith adfer, ewch i'n tudalen Facebook @CyforgorsyddCymruWelshRaisedBogs neu'r dudalen Twitter @Welshraisedbog

Dana Thomas, Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu LIFE

Pwll Nantllain cyn adfer

Pyllau Prin y Plwy'?

Pan oedd fy meibion yn ifanc mi fydda ni'n mynd am dro bob gwanwyn i chwilio am benbyliaid. Dyma un o ryfeddodau natur! Roedd ni'n ddigon ffodus i'w cael bob tro mewn dau bwll leol: un wrth lwybr cyhoeddus Nantllain Uchaf a'r llall uwchben Coed Taliesin. Weithiau roedd y llyffantod/brogaod i'w gweld yn paru yn frwdfrydig a swnllyd, ond i dawelu pan aetho ni'n nes.

Wel mae hynny'n mynd nôl tua 15 mlynedd bellach. Siomedig iawn oedd gweld bod pwll Nantllain wedi cau efo brwyn yn llwyr a dim golwg o'r penbyliaid llynedd. Roeddwn yn benderfynnol i'w ail hagor er mwyn cynnig meithrinfa i'r llyffantod bach unwaith eto. Rhaid i lyffantod cael dŵr croyw, glân a llonydd i atgynhyrchu.

Diolch i'r tirfeddianwr John Thomas, a oedd hefyd yn cofio'r pwll yn berwi efo grifft, am ganiatáu imi fynd ati. Felly efo rhaw a gyda chymorth cymdogion Pentrebach a Barri Llys Terfyn dyma mynd ati i daclo'r brwyn a'u gwreiddiau dwfn, cryf. Rargian! Dyna waith caled i hogan sydd fel arfer dim ond yn chwysu dros y laptop!

Ond dyna deimlad braf oedd gweld grifft yn y pwll newydd o fewn pedwar diwrnod o ni'n ei hadfer. Nid yw'r gwaith ar ben, ond rhaid rhoi'r gorau tan yr hydref fel bod llyffantod a creuaduriaid eraill fel gweision y neidr yn cael llonydd.

Nid oes angen cyfeirio at adroddiadau 'State of Nature' ar gyfer ardal Tal-y-bont oherwydd bod Gwilym Jenkins eisoes wedi sylwi ac wedi amlygu bod amrywiaeth ein byd natur yn lleihau. A mawr ddiolch iddo am wneud. Dim ond trwy tynnu sylw at yr hyn sy'n diflannu o flaen ein llygaid y gallen ni ddechrau newid y drefn. Dim ond ini ddarparu cartrefi addas, mi wnawn ni ddenu bywyd gwyllt yn ôl. Gwyddoch chi bod llyffantod yn rhan bwysig o'r ecosystem ac eu bod yn bwyta gwlithod o'n gerddi, ond a oeddech chi'n gwybod bod y jeli mewn grifft yn helpu cadw'r wyau yn gynnes?

Lle a phryd welsoch chi grifft ddiwethaf? Lle fu pyllau neu ffosydd addas o gwmpas Tal-y-bont? Oes angen adfer hen bwll sy'n fwyn i gyd bellach? Llefydd wrth lwybrau cyhoeddus lle mae'n bosib i deuluoedd heb gerddi cael gweld penbyliaid. Cysylltwch efo Papur Pawb i roi gwybod. Mi fyddai'n chwilio am wirfoddolwyr sydd eisiau cael 'workout' da a ffarwelio a'u 'bingo wings' (merched!) i fy helpu yn yr hydref…

Lisa Tomos, Pentrebach

Wrthi'n clirio brwyn efo cymdogion Pentrebach

Edrych mwy fel pwll

Grifft! Da gweld y feithrin-bwll yn dechrau llenwi

Gwobrwyo Ffotograffydd

Mae'r ffotograff trawiadol uchod, a dynnwyd yng nghoedwig Allt-y-Crib, wedi ennill gwobr arbennig yn ddiweddar gan Urdd y Ffotograffwyr. Y ffotograffydd talentog yw Urien Morgan, Tal-y-bont, sydd wedi dechrau arbenigo mewn tynnu ffotograffau o anifeiliaid anwes ac wedi sefydlu busnes o'r enw *Pet Photography Wales*, gan weithio o stiwdio yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth.

Yn wreiddiol o Aberystwyth, daeth Urien yn ôl i fyw i'r ardal hon wedi cyfnod yn gweithio yn y banciau mawr yn y Ddinas yn Llundain. Roedd wedi ymddiddori mewn ffotograffiaeth erioed ac fe fentrodd sefydlu busnes tynnu ffotograffau priodasau cyn bod y pandemig yn golygu, dros dro o leiaf, ddiwedd ar y fath weithgaredd. Aeth ati felly i sefydlu *Pet Photography Wales* gan dynnu lluniau proffesiynol o anifeiliaid anwes o bob math.

Dywedodd Urien wrth *Papur Pawb:*

'Dwi eisiau rhoi pwyslais arbennig ar gael celf o safon uchel mewn print ac ar waliau yn hytrach na jyst mynd ar goll yn y parth digidol. Mae gweld lluniau mewn print yn fyd gwahanol.'

Wrth ddyfarnu'r wobr efydd i Urien am ei ffotograff, dywedodd Cyfarwyddwyr y *Guild of Photographers*: "Ry ni'n falch bod Urien wedi llwyddo i ennill y wobr! Mae gan y *Guild* safonau uchel iawn wrth feirniadu ffotograffau mewn cystadlaethau. Yn wir, gwneir y beirniadu gan arbenigwyr rhyngwladol cydnabyddedig o gefndiroedd ffotograffiaeth amrywiol, felly mae'n gyrhaeddiad y gellid bod yn falch ohono.'

Ymateb Urien oedd: "Dwi'n falch o ennill y wobr efydd hon ar ôl mentro am y tro cyntaf fis diwethaf. Mae safon y *Guild* yn wallgof o uchel ac yn ysbrydoliaeth i mi."

Nid yw Tal-y-bont yn brin o ffotograffwyr amatur a phroffesiynol da ac mae'n braf bod Urien wedi dod i'w plith. Pob dymuniad da iddo yn ei yrfa.



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Cafodd aelodau'r gangen gyfle i ymuno gyda dau gyfarfod rhithiol yn ystod y mis diwethaf. Trefnwyd gweithdy crefft yng ngofal Glenys Morgan a sesiwn garddio gydag Adam Jones - 'Adam yn yr Ardd'.

Cardiau cyfarch amrywiol oedd thema'r gweithdy crefft, tybed a fydd ambell aelod yn derbyn cerdyn gwreiddiol yn y dyfodol agos?

Soniodd Adam am ei gefndir a'r dylanwadau fu arno wrth iddo ddisgrifio ei ffordd unigryw o arddio gan ddefnyddio natur i greu ei 'bats bach o nefoedd'.

Cyrhaeddodd rhifyn swmpus diweddaraf o'r Wawr a fydd yn sicr o help i lenwi'r amser yn y cyfnod sydd ohoni.

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd wyneb yn wyneb cyn bo hir ond am y tro, cadwch yn saff ac yn iach.

Neges gan deulu'r diweddar Gaenor Hall

Dymuna Heledd-Ann, Catrin a Mabli ddiolch yn gynnes iawn am gyfeillgarwch ffrindiau a theulu ac am y llu o negeseuon, galwadau, cardiau a chyfraniadau a dderbyniwyd i gofio am eu mam.

Doniol

Roedd cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol yn aros ger y gatiau i'r nefoedd, Y Pyrth Perlog.
A oes gennych rywbeth i gyffesi?
Oes wir. Ro'n i'n chwarae i Gymru yn erbyn Lloegr yn y 30'au ac fe sgoriais i'r cais i ennill y gêm ond 'dodd hi ddim yn gais.
Bydd angen i chi egluro.
Roes i'r bêl lawr dwy droedfedd o'r llinell a chropian drosodd.
Roedd hynny'n gais.
Na doedd 'na ddim yn gais achos rhaid croesi'r llinell gyda'r bêl.
Na chi sydd yn anghywir, roedd hynny'n gais.
Ma'n ddrwg 'da fi Sant Pedr dwi'n trio cyfadde 'mechodau.
Ti'n meddwl mai Sant Pedr sydd yma ond fy enw i yw Dewi!

Y Gair Olaf

Un o ganlyniadau cyfyngiadau'r cyfnod clo fu'r cyfle i ddod i adnabod fy mro fabwysiedig yn well. Does dim rhaid crwydro ymhell o adref ar hyd llwybrau gogledd Ceredigion i sylwi ar aml olion diwydrwydd y cenedlaethau a fu yn y gweithfeydd mwyn, y melinau gwlân a lluestai defaid yr ucheldir.

Bellach, amaethu yw'r unig hen ddiwydiant sydd ar ôl, er bod ffermio wedi newid llawer ar hyd y blynyddoedd. Mae sawl rheswm pam bod amaethyddiaeth wedi llwyddo i oroesi, gan gynnwys polisïau cefnogol llywodraethau'r gorffennol. Ond mae parodrwydd ffermwyr i addasu yn sicr hefyd yn cyfrannu at ffyniant y diwydiant hynaf oll.

Bu ffermwyr yr ardal yn flaengar i arloesi ers degawdau. Yn ystod y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd bu llwyddiannau mawr mewn ymdrechion i gynhyrchu mwy o fwyd ar fryniau'r ardal trwy wella tiroedd a bridio anifeiliaid mwy cynhyrchiol. Arallgyfeiriodd rhai i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac eraill i ddarparu llety mewn bythynnod gwyliau.

Heddiw mae gwaith bridio defaid hynod arloesol ar waith ym Mynydd Gorddu, a da gweld llwyddiant menter newydd teulu Cerrigcaranau yn potelu llaeth organig i'w werthu yn lleol yn siop Cletwr ac mewn peirannau yn Aberystwyth a Machynlleth.

Ond nid cynhyrchu bwyd yw unig gyfraniad ffermwyr i'n bro; hwy hefyd sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau parhad harddwch y tirwedd gwledig rydym falle yn ei werthfawrogi heddiw yn fwy nag erioed. Gobeithio bydd addewidion gwleidyddion am fuddsoddi gwahanol a newydd yng nghefn gwlad Cymru yn hwb pellach i ffyniant diwydiant hynaf ein bro.

Euryn Jones

pp Mawrth 21.qxp_Layout 1 08/03/2021 4:00 pm Page 12

CHWARAEON

Dirgelwch Drygioni y Rheng Flaen

Mae rygbi'r undeb wedi newid tipyn dros y blynyddoedd ers i'r gêm fynd yn broffesiynol, yn swyddogol, yn ystod y 1990au. Mae'r newidiadau wedi digwydd mewn sawl gwahanol ffordd - o siâp y chwaraewyr i fod penwythnosau gemau rhyngwladol yn rhyw fath o *mardi gras* cenedlaethol!

Un peth sydd wedi goroesi yw dirgelwch y drygioni sy'n mynd ymlaen yn y rheng flaen. Hynny yw, rhwng rhif 1 a 3 y ddau dîm yn y sgrymiau! Yn bendant does gyda'r rhan fwyaf o ddyfarnwyr ddim cliw be sy'n mynd 'mlaen, sydd yn arwain at gêm o tenis yn aml gyda bod y timoedd am yn ail yn cael eu cosbi ar ddyfaliad y dyfarnwr! Hyn i gyd er mwyn ceisio cadw'r ddysgl yn wastad a chadw'r ddelwedd fod gyda nhw rhyw reolaeth dros y gêm a bod nhw'n gwybod be sy'n mynd 'mlaen!

Un a fu yng nghanol hwyl a helbul rheng flaen Clwb Rygbi Aberystwyth am dros ddegawd yw Eifion Jones, Cilgant y Coed, Taliesin.

Roedd Eifion yn adlewyrchiad o'r newid â oedd yn digwydd o fewn rygbi yn ystod degawd cyntaf y ganrif. Roedd yn brop a bachwr disgybledig o ran ymarfer ac yn ofalus am beth oedd yn yfed a bwyta. Roedd ymysg y mwyaf heini yn y garfan ac yn mwynhau a gwneud yn dda iawn yn y 'bleep test' a oedd yn arfer hela ias oer lawr cefnau bois y rheng flaen!

Adlewyrchiad arall bod pethau'n newid oedd fod Eifion wedi ennill tlws Chwaraewr y Flwyddyn Clwb Aber ar ddau achlysur wahanol. Tipyn o gamp achos y bois golygus gyda'r gwallt twt, siorts tynn a dannedd pert yn y linell ôl oedd fel arfer yn ennill y fath gydnabyddiaeth a llun yn y papur!

Er bod Eifion wedi ymddeol ers rai blynyddoedd bellach mae'n edrych nôl â hoffter ar ei yrfa a'r ffrinidau oes y gwnaeth gyda'r rhai a chwaraeodd gyda hwy ac hyd yn oed un neu ddau yn eu herbyn!

Hoff cyd-chwaraewr
Rhai o'r chwaraewyr dramor a ddaeth i chwarae i Aberystwyth dros y blynyddoedd (Tak Norton, Davis Norman) – anrhydedd chwarae gyda chwaraewyr o'r safon ag i weld y dylanwad oeddent yn cael ar gêm ac ysbryd/hyder y tîm.

Eifion Jones

Y dylanwad mwyaf
Rheng flaen Ysgol Penweddig 1990au – Iolo "Erwbarfe" Lewis, Gerwyn Jones a James 'Ty Llwyd' Raw. Pencampwyr Ysgolion Cymru.

Hoff gêm a pham
Ennill gêm ail gyfle i gael dyrchafiad i Adran 2 Cenedlaethol yn erbyn Tondu yn Cydweli.

Hoff gae a pham
Plascrug, cartref Aberystwyth RFC wrth gwrs!

Gwrthwynebwr caletaf
Pob dyfarnwr dwi wedi chwarae yn erbyn! Neb unigol ond fel tîm ma' Llambed wastad yn dod i'r meddwl; yn enwedig y garfan ag enillodd ddyrchafiad i Adran 3 tua 2005. Anifeiliaid!

Pryd gorau ar ôl gêm
Cyri a chips ar ôl gêm yn erbyn Llanymddyfri.

Digwyddiad doniol
Gweld fy mrawd yn taflu pêl hir ar linell 5 ein hunain yn syth i freichiau chwaraewr rheng ôl Waunarlwydd i sgorio'r cais hawsa' o'i yrfa; os oedd modd sgorio "own goal" yn rygbi, wedyn ma' hyn mor agos â dewch chi – doniol nawr ond ddim ar y pryd…!!!!

Beth wyt ti'n golli fwyaf?
Y teimlad ar ôl ennill gêm agos/cyffrous.

Beth wyt ti ddim yn ei golli o gwbl?
Teithio a newid mewn 'stafelloedd oer, gwlyb a thywyll yng nghanol gaeaf yn rhai o gorneli llai delfrydol de Cymru!!!

Un dyn bach ar ôl

Yn y rhifyn diwethaf holwyd chwi'r darllenwyr i enwi'r un chwaraewr pêl-droed lleol nad oeddem yn ei adnabod yn y llun a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1985. O fewn dim o dro cefais e-bost gan Bryn Smith fel a ganlyn:

'Enw'r un dyn bach sydd ar ôl yn y llun yw Gerwyn Jones a oedd yn byw ar y pryd yng Ngoginan. Roedd Gerwyn yn gweithio gyda fi yn Neuadd y Dref cyn symud i ffwrdd o'r ardal ac mi ofynnodd os gallai chwarae yn y gêm. Roedd ganddo fodryb yn byw yn Nhal-y-bont.'

Felly mae enwau'r 25 sydd yn y llun ar glawr.
Diolch i Bryn am yr ateb.